# GUTO ROBERTS
## a drych yr amseroedd yn Eifionydd
# Cau drysau capel Robert Jones Rhos-lan

MAE Capel Rhos-lan wedi cau. Mae'r dyrnaid o Annibynwyr a arferai ei fynychu yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi ildio eu hawl i gyfarfod ynddo a thrwy hynny wedi dirwyn i ben draddodiad crefyddol a oedd yn ymestyn yn ôl am ddau can mlynedd solat.

Y Rhos-lan sydd ym mhlwyf Llanystumdwy yn Eifionydd yw'r un dan sylw; ac o gofio mai yn y Suntur yno y ganed Robert Jones yn 1745 ac mai dan ei gronglwyd ef yn y Tir Bach — led dau gae o'r Capel presennol — y cyfarfyddai Methodistiaid cynnar Eifionydd, mae'n syndod mai addoldy i'r Annibynwyr a geir yn yr ardal.

Mae sylweddoli mai perthyn i'r Bedyddwyr a wna Capel y Beirdd sydd am yr afon ag o yn ychwanegu at y dirgelwch.

Enw'r plwyf — Llanystumdwy — a gyplysir ag enw'r hen fardd Owen Gruffydd (1643-1730) er mai yn Rhos-lan yr oedd yntau yn byw a dichon fod a wnelo ei grwydradau fel gwehydd â hynny.

Y gweithdy yn y Tir Bach, Rhos-lan, oedd man canolog Robert Jones fel saer a phan fynnodd gael ei weithdy yn ddigon mawr i groesawu a chynnal cyfarfodydd crefyddol y Methodistiaid cynnar daeth yr enw Rhos-lan yn gyfystyr â Robert Jones ei hun mae'n ddiamau.

* * * *

MEWN papur gan yr Athro J. E. Caerwyn Williams a geir yng Nghyfrol 24 o *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon* cawn ei fod ef ar adegau yn anwybyddu y Robert a'r Jones yn ei enw a chyfeirio at yr hen wron yn unig fel — *Rhos-lan*. Dyma ddwy enghraifft:

> *'Cyhuddwyd Rhos-lan o fod yn hygoelus . . .' (t.192).*

Eto:

> *'Heblaw rhoi ychydig o hanes ei hun, rhoes Rhos-lan beth o hanes ei deulu hefyd yn y Drych.' (t.189).*

*Y Drych* yn y fan yna yw *Drych yr Amseroedd,* o waith Robert Jones a gyhoeddwyd yn 1820, ac fe eill sôn am un copi o'r llyfr hwnnw fod o ddiddordeb i ddarllenwyr *Y Casglwr.*

Tua 1977 oedd hi a minnau'n sgwrsio efo Roderick Owen — sydd yn byw yn Lerpwl — a'r sgwrs yn troi i sôn am y llyfr.

'Ydi o gen ti?' meddwn i.

'Nagdi wir.'

'Tyrd acw,' meddwn wedyn, 'ac mi ro' i un iti — ma' gen i ddau ne' dri ohonyn nhw.'

Pan ddaeth acw ac i minnau agor y copi cyntaf fe sylwais fod enw a chyfeiriad y cyn berchennog mewn llawysgrifen raenus ar du mewn y clawr — Samuel Jones, 8 Ray Street, Liverpool, Jany. 12th 1850.

Yn hytrach nag ildio'r copi hwnnw fe heriais fy nghyfaill i fynd ati i ddod o hyd i ddogfennau'r cyfrifiad cyntaf a



gaed yn 1841. Derbyniodd yntau'r her a gadael i mi wybod ymhen yr wythnos fod yno bryd hynny un Samuel Jones yn cadw siop Groser yn 8 Ray Street. Enw ei wraig oedd Mary ac enwau'r plant oedd Rebecca, Ebenezer a Catherine.

O ddeall nad oedd Samuel Jones wedi ei eni yn Lerpwl euthum ati i fyseddu cyfrol o *Hanes Methodistiaeth Liverpool* (John Morris Hughes, Cyf. I) ac yno'n serennu arnaf 'roedd pennod gyfan efo'r pennawd 'Samuel Jones a'i Ddyddiaduron'. 'Roedd y Samuel Jones hwn wedi bod yn byw yn 8 Ray Street, Liverpool!

Enw ei wraig yntau oedd Mary ac mewn cofnod yn ei ddyddlyfr ar Orffennaf 2, 1844, mae'n cyfeirio at ddiarddel pedwar o had yr eglwys ac yn eu plith yr oedd Ebenezer Jones, Ray Street, gan ychwanegu — 'fy mab fy hun'.

* * * *

YMDDENGYS, felly, fod y Samuel Jones sydd â'i enw ar fy nghopi o'r *Drych* a'r Samuel Jones a gadwodd y Dyddiaduron yr un. Dyma'r hyn a ddywedir amdano yn *Hanes Methodistiaeth Liverpool*:

> *'Ar gyfrif maint a meithder ei wasanaeth . . . a thrachefn ar gyfrif gwerth hanesiol amhrisiadwy ei ysgrifau a'i gofnodion, yn ddiau haedda Samuel Jones bennod iddo'i hun yn hanes Methodistiaeth Liverpool. . .*
> *Mab ydoedd . . . i'r Hybarch Robert Jones Rhos-lan.'*

Mae'r copi hwnnw a ddaethai i'm cartref i yn Rhos-lan ymhen 120 o flynyddoedd gennyf o hyd.

* * * *

CYSTAL i mi nodi un wybodaeth fach ddiddorol am Robert Jones. Ar wahân iddo gyhoeddi llyfrau o'i waith ei hun — a'u gwerthu hefyd mae'n ddiamau — byddai hefyd yn gwerthu llyfrau o waith awduron eraill. Yn garn i osodiad fel yna gallaf honni i mi weld iddo gymryd cant o gopïau o'r llyfr *Afalau Aur* (T. Brooks, Llundain), a gyhoeddwyd gan Hugh Jones, Maes Glasau, yn 1783.


Ar fur capel yr Annibynwyr yn Rhos-lan mae cofeb deilwng i Robert Jones y Methodyn. Cafodd ei dadorchuddio gan Y Prifardd Elfed ar Fehefin 22, 1946.

## STAN WICKLEN hefyd yn cofio
# Y gaer fawr yn Ahmednagar

DIDDOROL oedd darllen am gaer Ahmednagar a Nehru yn rhifyn Awst 1991 o'r *Casglwr.* Fel y cyfaill a 'sgwennodd yr erthygl roeddwn innau hefyd yn aelod o'r 14eg Fyddin yn yr India, er efallai yn ddiweddarach. Ymunais â Byddin India ar ôl brwydr Burma lle collwyd oddeutu 40,000 wedi eu lladd a'u hanafu, ond yn waeth fyth daeth 220,000 yn ôl wedi eu rheibio gan afiechydon heintus yr amgylchedd.

'Dwyf fi ddim yn cofio Nehru yn Ahmednagar ond gwelais Gandhi o dan 'house arrest' yn un o'i balasau yn Poona. Yn ôl yr hanes roedd Gandhi yn ŵr cyfoethog ond yn gwisgo y 'doti' — math o blanced wlân — i hybu y crefftau a diwydiannau gwledig. Yn ddiweddarach yn y gogledd-orllewin gwelais Nehru ar y ffordd i Srinagar yn Kashmir.

Ond yn ôl i Ahmednagar (Dinas Ahmed) a sefydlwyd tua 250 CC ar y Deccan gan Ahmed Nazam Shah a'i henwi er cof amdano. Yn yr hen amser dywedir bod Ahmednagar i'w chymharu mewn pwysigrwydd a harddwch â dinasoedd Cairo a Baghdad, ond amhosibl dirnad hyn wrth edrych ar gyflwr y gaer



yn yr oes bresennol.

Fel y dywed yr erthygl amgylchynwyd y gaer gan ffos anferth — ffos gyda llaw oedd yn sych yn 1803 pan ymosododd y Cadfridog Wellesey ar Ahmednagar.

Meddiannodd Wellesey, a ddaeth yn Ddug Wellington yn ddiweddarach, y ddinas heb lawer o drafferth er bod ei muriau yn 30 troedfedd o uchder a phum troedfedd o led. Cofiaf fod y muriau yn filltir a 80 o lathenni oddi amgylch am y rheswm syml ein bod ni fel milwyr ifanc yn gorfod rhedeg o'i hamgylch bob bore fel rhan o'n hymarfer corff!

Mae llun ar glawr llyfryn a'i deitl: *Ahmednagar / by / The Rev. Canon T. R. H. Elliott / and / Captain W. B. Hubbard / Printed for the authors / by / the S.P.G. Mission Press / Ahmednagar.*

Pris y llyfryn oedd *One Rupee* a'r holl elw at y ddwy genhadaeth feddygol yn Ahmednagar a'r cylch. Cyhoeddwyd am y tro cyntaf Rhagfyr 1943. Copïau o'r llyfryn ar gael oddi wrth 'The Hon. Secretary, Ahmednagar Club, Ahmednagar' — adlais o'r British Raj.